

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 231

Pris £1

Mis Bach 2021



“Mae’n well rhoi.....”

Rydym i gyd wedi gweld bocs yn ein gwahodd i gyfrannu i’n Banc Bwyd Lleol ac efallai nad yw e ond rhan ddinod ymhlith arddangosfeydd y siop. Ond peidiwch â cherdded heibio. Oherwydd mae hwn ond yn rhan fach o brosiectau anferthol. Mae’r rhoddion a gesglir yn y bocsys yn ein harchfarchnadoedd yn mynd tuag at y Trussel Trust. Ond hefyd mae tîm o dros 200 o wirfoddolwyr o adain “Prosiect Gofal” Ymddiriedolaeth plwyf eglwys Sant Tomos yn Nhretomos hefyd yn casglu bwyd a hynny drwy drefnu’n uniongyrchol â’r archfarchnadoedd. A gwybodaeth am brosiect Tretomos geir yma.



Ar flaen y garfan fawr o weithwyr mae tîm gweinyddol dan arweiniad y ficer lleol, Y Parchedig Dean Roberts sy’n Gadeirydd Ymddiriedolwyr y Plwyf. Mae llawer iawn o waith gweinyddol i’w wneud am fod yn rhaid cofnodi’r holl roddion a’u didoli gan osod nifer mewn rhewgelloedd. Oherwydd swmp y bwyd, mae gan y sefydliad ddwy fan. Mae’r faniau hyn ynghyd â gwirfoddolwyr yn defnyddio eu ceir eu hunain yn dosbarthu rhwng 60 a 100 o barseli bob wythnos. Mae un parcel cyfwerth â digon o fwyd i un teulu am wythnos, sef llond cist gefn car. Ar gyfartaledd mae pob parcel yn costio dros £100.

O bryd i’w gilydd bydd yr Ymddiriedolaeth yn dosbarthu taflenni i ardal benodol yn gwahodd pobol i adael pecynnau bwyd ar stepen eu drws gan roi manylion am pryd fyddant yn cael eu casglu. Mae’r ymateb, yn aml iawn, wedi bod yn hael.

Er mwyn gwybod pwy sydd mewn angen mae ganddynt dros 40 o bartneriaid sy’n eu cyfeirio at yr anghenus, megis Canolfannau Gwaith, cynghorau, ysgolion a’r Gwasanaethau Cymdeithasol, Darparu. Pobol yn byw yn ardal Cod Post CF83 yn bennaf bydd Tretomos yn darparu ar eu cyfer.

Mae pobol yn aml yn gallu bod yn rhy barod i amau’r sawl sy’n cymryd mantais annheg o gefnogaeth



elusennol. Ond yn Nhretomos maen nhw’n gwbl ymwybodol o hyn ac yn gwybod sut i ddelio â’r mater gan fod yn ymwybodol y gall y sefyllfa fod yn fwy dyrus. Gall pobol hawlio tri phecyn i ddechrau, ond wedi hynny mae’n rhaid iddyn nhw gael eu cyfeirio. Wrth i’r grŵp ddod i ben â’u blwyddyn gyntaf maen nhw eisoes yn dod yn ymwybodol o ble mae gwir angen. Byddant, yn y pen draw, yn mynd i’r afael â rhai achosion i weld allan nhw ddod at wraidd y broblem. Yn aml, teuluoedd un rhiant neu rai wedi methu dod o hyd i waith yw’r rhain. Ond pa mor “annheilwng” bynnag mae’r tlodion, mae’r gweithwyr bob amser yn ymwybodol o’r ffaith ei bod yn bosib fod plant yn y cartrefi hyn sydd yn mynd heb fwyd.

Ar ben arall y sbectrwm, daw’r staff ar draws y sawl sydd wedi’u llethu gan ddiolchgarwch wrth dderbyn parcel. Yna mae’na eraill yn rhy falch i dderbyn yr hyn y maen nhw’n ei weld fel “elusen”. Yma eto, mae’n rhaid i’r staff ystyried y gallai fod plant yn dioddef oherwydd unplygrwydd balchder eu rheini.

Mae ystod y gweithgareddau, fel y gwelwch, yn ddrud iawn eu cynnal. Tra bod croeso cynnes i bob cynnig o fwyd ac ati mae graddfa’r hyn a wneir yn galw am gefnogaeth ariannol sylweddol oherwydd biliau, cyflogau isel ac yswiriant sydd yn rhaid eu talu. Mae croeso mawr felly i sieciau neu gyfraniadau ar-lein ac os hoffech chi gyfrannu mewn unrhyw ffordd gan roi bwyd neu arian neu wirfoddoli eich gwasanaeth, cysylltwch â:

Y Ddwy “Moyra”



Mali Moyra

Ganwyd Mali Moyra ar ddechre’ Ionawr i Gruff a Chloe Parsons. Roedd hi'n rhodd Calennig arbennig iawn i'w Mamgu a'i Thadcu, Nia a Richard Parsons. Ganwyd Mali Moyra gan’ mlynedd i flwyddyn geni ei hen famgu, y diweddar Moyra Davies a oedd yn flaenllaw ym myd addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerffili.

Mae Nia a Richard yn edrych ymlaen at dreulio amser yn Teddington yn gofalu am Mali ac yn cwrdd â phobl newydd yn y gymuned felly byddent yn ddiolchgar o glywed a oes gan unrhywun gysylltiadau yn yr ardal honno. Rhif ffôn Nia yw 07817975799

.....a drigain mlynedd yn gynharach

Fel llawer yn ystod y clo mawr, rwyf finnau hefyd wedi cael amser i ddiolli a chlirio eitemau diangen o'n cartref. Roedd yn foddhaol, ac yn gymharol hawdd, gosod y rhan fwy'r eitemau mewn bagiau amrywiol i'w dosbarthu naill ai i'r bin, siop elusen, dymp neu i'w cadw. Ond roedd un ardal yn ein tŷ ni a gymerodd ddyddiau i glirio, a'r ardal honno oedd hen goffor derw mawreddog yn dyddio'n ôl i'r 18fed ganrif. Mae'r coffor hwn mor bwysig i'n teulu ni bo' ganddo enw, efallai y bydd rhai ohonoch yn gyfarwydd â'i enw, fe'i gelwir yn Bili Morgan. Prynwyd Bili Morgan gan fy nhad, ar ddechrau'r 1960au o werthiant ffarm, yn dilyn marwolaeth y ffarmwr o'r un enw.

Yn ôl bob tebyg, ddefnyddiwyd Bili Morgan, y coffor, i storio bwyd anifeiliaid mewn hen feudy ac, yn anffodus, erbyn i dad ei brynu, roedd wedi colli ei hen ogoniant. Wrth lwc, gwelodd mam botensial yn yr hen goffor, a bu wrthi am oriau yn glanhau'r pren gyda finegr ac yn rhwbio Brasso ar yr handleni pres hardd. Wedi'r glanhau, cafodd Bili Morgan le anrhydeddus yn ein 'stafell fyw ni a bu'n werthfawr i storio pob math o bethau.

Fel plentyn, cofiaf y cyffro o weld mam yn agor top trwm Bili Morgan i ddatgelu, beth oedd i mi, yn gyfoeth o drysorau. Yma, y storiwyd ein gwisgoedd Cymreig. Byddent yn cael eu tynnu allan ar ddiwedd y mis bach mewn da bryd i gael eu tempri cyn Gŵyl Ddewi.

Roedd agor Bili Morgan yn yr haf yn arwydd bo 'na drip i Ynys y Barri ar y gorwel, wrth i wisgoedd nofio trwchus cotwm, Slopi Jos a thyweli traeth streipiog ymddangos wedi blwyddyn o gwato yng nghrombil yr hen goffor. Atgofion melyn.

Mae Bili Morgan yn dal i warchod nifer o drysorau'r teulu, gan gynnwys hen lyfrau dogni, cardiau ID, hen ddogfennau ffarm a ffotograffau. Un o'r ffotograffau niferus y byddaf bob amser yn ei drysori, yw ffotograff o'm dosbarth cyntaf yn yr ysgol. Fe gymerwyd y llun 60 mlynedd yn ôl i'r Gwanwyn hwn. Mae'n dangos y grŵp cyntaf o blant a fynychodd addysg cyfrwng Cymraeg yn ôl yn 1961 gyda Mr T. H. Williams, pennaeth Ysgol Saesneg y Gwyndy, a mam, Moyra Davies, a benodwyd yn athrawes arnom. Fy ngobaith eleni yw ail-lunio'r llun arbennig yma wrth i ni ddathlu trigain mlynedd o addysg gynradd Gymraeg yn nhref Caerffili, gan greu trysor arall i'w osod yn Bili Morgan ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Nia Parsons

Te, Tsieina a Thwyll

Sgwrs gan Allan Cook



Bowlen o Diwylliant afon yr Indus, tua 1,500 i 3,000 C.C..

Ar brynhawn hynod o ddiflas ym mis Ionawr pleser o'r mwyaf oedd cael croesawu Allan i ymuno hefo ni dros Zoom. Cawsom orig ddifyr iawn yn ei gwmni yn gwrando a gwylio sleidiau yn ymwneud â hanes datblygiad mewn cynhyrchu llestri. Nododd bwysigrwydd llestri a'u rhan allweddol wrth ymchwilio i hanes. Cyflwynodd beth wmbreddo wybodaeth hynod o ddiddorol a mynd â ni ar daith yn cychwyn 20,000 o flynyddoedd yn ôl gyda llun o'r llestr hynaf sydd ar gael hyd at gynhyrchu llestri yn Nantgarw ac Abertawe.

Ar y daith honno buom yn nyffryn Indus yn Asia a dysgu am y diwylliant anhygoel oedd yno. Anodd credu bod cannoedd o ddinasoedd wedi eu codi yno rhwng 3,000 - 1,500 CC a'r cyfan wedi mynd yn angof nes dechrau adeiladu rheilffordd yno. Canfuwyd miloedd ar filoedd o frics a'u defnyddio fel ballast nes i archeolegwyr sylweddoli arwyddocâd y darganfyddiad a hynny yn ei dro yn arwain at ddarganfod crochenwaith.

O ddyffryn Indus dyma fynd i'r Eidal a dysgu am yr amphorae a ddefnyddia'r Rhufeiniaid ar gyfer cadw a chludo olew, gwin a physgod. Mae'n debyg mai dim ond unwaith caent eu defnyddio gan y byddai blas y cynnyrch yn treiddio i'r clai oherwydd y ffordd caent eu tanio.

A dweud y gwir 'chydig o ddatblygiad a fu mewn crochenwaith yn Ewrop rhwng cyfnod yr Indus a'r canol oesoedd. Aur ac arian fyddai defnydd llestri'r bonedd a'r tlodion yn defnyddio llestri wedi eu gwneud o bren neu ledr. Daeth tro ar fyd yn oes Elisabeth 1af gyda sefydlu'r East India Company. Roedd yr Iseldiroedd wedi dechrau mewnfario llestri o Tsieina a dechrau copïo'r crochenwaith a dechrau ei gynhyrchu, a dyna ddechreuad y crochenwaith glas a gwyn adnabyddus, sef Delft.

Yn hanner olaf yr ail ganrif ar bymtheg cyrhaeddodd te o Tsieina yn Ewrop a dechreuwyd ei werthu yn Llundain. Crëwyd powlenni a soseri i'w dal ar gyfer ei yfed. Un ffaith ddiddorol yw y byddai'r llestri yn cael eu pacio mewn te ar gyfer eu hallforio, felly dau gynnyrch yn cyrraedd gyda'i gilydd.

Bu sawl llongdrylliad yn ystod y teithiau hyn ac yn ôl Allan mae hanes diddorol gan Captain Mike Hatcher yn ei lyfr *Treasure of the Deep* ar sut yr achubwyd miloedd o ddarnau o lestri o waelod y môr a'r ffortiwn oedd ynghlwm wrth hynny.

Yna ar y daith gydag Allan, dyma gyrraedd Prydain a dysgu am enwau oedd yn gyfarwydd iawn i bob un ohonom. Yng nghanol y ddeunawfed ganrif sefydlwyd crochenwaith Caerwrangon ac yma symudwyd o ddefnyddio patrymau traddodiadol o Tsieina i ddefnyddio lluniadau mwy naturiol i Brydain. Datblygwyd ffatri Coalport gan John Rose ddim yn bell o Ironbridge. Josiah Spode oedd yn gyfrifol am berffeithio'r dull o greu *bone china*. Arbrofodd drwy ddefnyddio 30% o esgyrn anifeiliaid a thanio'r cynnyrch hyd at 1500⁰ 99 gradd C. Canlyniad hyn oedd gwneud y porslen yn wynnach.

A dyma droi at Gymru a hanes William Billingsley a symudodd o Gaerwrangon i grochenwaith Nantgarw a'r *Billingsley Roses* yn enwog hyd heddiw. Maes o law symudodd i Abertawe lle'r oedd ymdrech wedi bod i arbrofi gyda llestri ond nid porslen. Cododd Billingsley ei bac unwaith eto a'i throi hi am Coalport a phan gaewyd crochenwaith Abertawe symudodd y gwaith i Lanelli. Doedd y cynnyrch ddim cystal â dweud y gwir ac yn fwy cwrs ond eto erbyn heddiw mae llestri *Llanelly* yn dra phrin ac yn eitha drud.



2 fowlen a saser a ddarganfyddwyd ar waelod y môr yn llong y Geldermaslen a suddodd ym môr Tsieina yn 1752.

Mae'r cwestiwn o dwyll yn fwy cymhleth yn ôl Allan. Gyda phob crochenwaith â'i farc arbennig, rhaid cadw mewn golwg bod cwmnïau fel Samson o Baris oedd yn cynhyrchu *porcelaine* yn copïo darnau o lestri cwmnïau eraill, e.e. Caerwrangon, ac yn defnyddio'r un marc, felly mae angen bod yn wylidwrs wrth adnabod a phriodoli llestri i'r gwneuthurwr.

Diolch o galon i Allan am fynd â ni ar daith mor ddiddorol ac am rannu cymaint o'i wybodaeth hefo ni. Pan ddaw'r amser i ni allu crwydro unwaith eto, mi fyddaf yn edrych ymlaen at chwilio a chwalu pob math o lestri mewn siopau hen greiriau ond tan hynny mi fyddaf yn mwynhau paned go iawn mewn cwpan a soser *bone china*. Does dim byd tebyg.



Monte Testaccio, mynydd ym mhorthladd Rhufain sydd wedi ei wneud allan o 53 milliwn o lestri (amphorae).



Cefn soser yn dangos sticer y Nanking

Anwen Hill

Diolch yn Fawr i Gronfa Glyndŵr gan Gylch Meithrin Tonyfelin

Mae Cylch Meithrin Tonyfelin wedi derbyn grant o £641.00 oddi wrth Cronfa Glyndŵr tuag at brynu dau gyfrifiadur a baneri i hyrwyddo'r Cylch.

Elusen yw Cronfa Glyndŵr a sefydlwyd yn 1963 gan Trefor a Gwyneth Morgan i hyrwyddo addysg Gymraeg a chynnig cymorth i rieni sydd eisiau i'w plant fwynhau manteision addysg ddwyieithog. Ei nod yw 'gwneud gwahaniaeth'. Felly, mae'r Gronfa yn cynnig grantiau i gylchoedd Meithrin a Ti a Fi, ysgolion cyfrwng Cymraeg a Mentrau Iaith i'w helpu i farchnata eu darpariaeth ac i wella eu hadnoddau. Mae'r Gronfa yn ddolchgar iawn i'r noddwyr hael sy'n eu cefnogi yn ariannol, oherwydd hebbdynt ni fyddai modd i'r Gronfa ddiwallu'r galw. Byddai'r Gronfa wrth eu bodd yn denu rhagor o noddwyr i'w cefnogi. Ceir fwy o wybodaeth ar eu gwefan www.cronfaglyndwr.cymru



Lleolir Cylch Meithrin Tonyfelin ar Heol Bedwas ar gyrion tref Caerffili. Fe'i sefydlwyd yn 1967 yn gylch cyfrwng Cymraeg. Mae'r Cylch yn bwydo'r ddwy ysgol Gymraeg yn y dref, sef Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gymraeg y Castell.

Mae'r Cylch yn cwrdd am bedwar bore'r wythnos yn Neuadd Christmas Evans, sef ystafell eang yng nghefn Capel Tonyfelin ac ynddi ddigonedd o le i allu cynnig amrywiaeth o weithgareddau a sefyllfaoedd chwarae. Dymuna Ymddiriedolwyr y Cylch ddolch i Gronfa Glyndŵr, rhieni, staff ac aelodau pwyllgor y Cylch am ddangos ymrwymiad ac ymroddiad yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn.

Os am fwy o wybodaeth am Gylch Meithrin Tonyfelin, cysylltwch âg Arweinydd y Cylch ar 07425 608501 neu cylchmeithrintonyfelin@yahoo.com

Nia Parsons

Adwaith ac Adborth

Mae'n sicr y gallwch ddweud fod i'n papur bro lawer gwendid ac rydym bob amser yn falch o dderbyn eich sylwadau ac i glywed eich barn. Ond un ardal sydd yn wan iawn a hynny yw derbyn adborth - boed yn feirniadaeth neu'n air o ganmoliaeth.

Ond ddim felly o dderbyn ymateb rhai o'n cyd-Gymry i rifyn cyntaf 2021.

Roedd yr erthygl yn beirniadu penderfyniad cwmni Redrow i glodfori'r iarll Normanaidd, Gilbert de Clare, drwy enwi ymestyniad i ystad Hendredenni yng Nghaerffili wedi taro deuddeg. A hynny ar adeg pan fod pobol yn sylweddoli nad yw enwogrwydd bob amser yn gyfiawnhad dros anfarwoli person.

Roedd eich ymateb chi ddarllenwyr yn ddadlennol iawn. Y gorau, efallai, oedd defnyddio enw'r mynydd cyfagos sef Mynydd Meio fel enw ar gyfer y datblygiad. Defnyddiwyd y gair castell a nifer o enwau sy'n gysylltiedig â'r gaer honno hyd at syrffed. Felly, hefyd cyfeiriadau at y felin a fu yn ardal Mill Road, ganol y dref.



Dywedwyd yn yr erthygl mai anodd iawn yw newid enw unwaith mae adeilad neu stryd wedi'i enwi. Ond fe'n atgoffwyd yn llyfr Martin Shipton bod rhai wedi edifarhau clodfori George Thomas, Arglwydd Tonypany wedi i rai agweddau o fywyd cyn-Lefarydd Tŷr Cyffredin ddod i'r amlwg. Yn y llyfr, "Political Chameleon" dywedir bod y cwmni sydd yn berchen ar dafarn y "Lord Tonypany" bellach wedi newid yr enw i "Fulling Mill". Dywedwyd hefyd am ddeiseb yn erbyn clodfori Thomas am "*the betrayal of the people of Aberfan that was explored in news coverage marking the 50th anniversary of the tragedy*". Hefyd, bod yr elusen "George Thomas Hospice" nawr wedi'i newid i "City Hospice". Felly, mae modd newid.

Mae'n ddiddorol fod y *Western Mail* a'r *Daily Telegraph* hwythau wedi rhedeg erthyglau llawn am yr enwi yn Hendredenni. Yr hyn sydd ar goll, fodd bynnag, yn y ddwy erthygl, yw'r ffaith bod pobol leol wedi gwrthwynebu cynlluniau Redrow i godi'r ystad newydd yn y lle cyntaf. A hynny am fod gormod o dai yn cael eu codi yn y dref a'r cyffiniau eisoes.

Ond mae ymateb Redrow yn ddiddorol gan eu bod yn pledio nawr taw enw dros dro yw "DeClare Gardens" ac y byddan nhw'n ymgynghori â phobol leol cyn penderfynu ar yr enw terfynol. Efallai, felly, fod gwerth mewn protestio ac ymgyrchu wedi'r cyfan!

Cyn i'r llwch setlo ar ddadl de Clare clywyd fod bwyty poblogaidd Glanmor (Glanmor's!) yng Nghwrt y Castell i newid dwylo. Mae "Glanmor" yn ei hunan yn air Cymraeg iach er bod y perchennog wedi'i gladdu ers rhai blynnyddoedd. Bu ei weddw wrthi'n parhau â'r fusnes ar ei phen ei hun ers tro byd.

Petai'r enw yn cael ei newid, beth fyddai'n briodol yn ei le, eto gan geisio anghofio'r castell a'r felin? Caed yr awgrym gorau wrth gofio bod Evan James wedi'i eni llai na chanllath o ddrws ffrynt y caffi. Cododd sawl Cymro cydwybodol ei bin ysgrifennu (neu ei brosesydd geiriau) i yrru gair at y perchennog newydd. Ond, yn anffodus doedd y wybodaeth a gafwyd am hwnnw ddim yn gywir. Er hynny, hwyrach y derbyniodd y perchennogion newydd y neges am yr hyn oedd dymuniad rhai o'u darpar gwsmeriaid.

Sut mae "Caffi Evan James" yn swnio i chi??

Ond nid dyna'r diwedd ar yr adborth chwaith. Nage wir, cafwyd ymateb gan un sydd wedi gohebu â'r golygydd cyn hyn, sef Gwladus Griffiths! Roedd hi'n anghytuno â sylwadau'r golygydd am ddefnydd rhai geiriau yn ei bedwaredd erthygl, "Lost In Translation". Trowch i dudalen 13 i ddarllen ymateb "Y Darllenydd Dirgel".

Y Golygydd

Beth sydd o'i le ar y Triban?

Mae'n syndod i fi fod y limrig mor boblogaidd yn ein heisteddfodau heddiw - ac yn rhan mor bwysig o raglen hyfryd Bore Cothi ar ben hynny. Mae'n fesur hwylus sy'n addas iawn at ffraethineb - ond mesur cymharol newydd ydyw, ac un sy'n estron i'n traddodiad barddonol ni. Yn fwy na hynny: mae gennym fesur hynod debyg yn y traddodiad hwnnw, sef y *Triban*. *Englyn cyrch* oedd enw hwn yn nyddiau ei fri (sef yr Oesoedd Canol) ond fe ddaeth yn fesur hynod o boblogaidd yn ne Cymru. Erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg *Triban Morgannwg* oedd yr enw ar y mesur.

Mae cannoedd, os nid miloedd, o Dribannau wedi eu cofnodi, ac mae poblogrwydd a photensial y mesur yn amlwg iawn ynddynt. Yng ngeiriau un o feirdd ein bro:

*Mae gwŷr y North ers oesau
Yn hoffi'r caeth fesurau
Ond triban hen Forgannwg wen
At fawl neu sen sydd orau.*

Fel y gwelwch, pedair llinell sydd i driban ac englyn (a limrig) fel ei gilydd, a saith sillaf i bob un ar wahân i'r drydedd, sydd ag wyth sillaf ynddi. Mae tair o'r llinellau (1,2 a 3) yn odli gyda'i gilydd, ac mae diwedd y drydedd linell yn odli gyda chanol y bedwaredd. A dyna ni - mesur hawdd iawn iei feistroli, ddwedwn i. Mae'n amlwg oddi wrth y nifer a gadwyd i ni fod beirdd ein bro wedi ei feistroli a'i ddefnyddio'n gelfydd at bob agwedd o fywyd.

Dyna un arall o nodweddion mawr y Triban: mae'n rhoi cip i ni ar fywyd cymdeithasol answyddogol ein cymoedd – bywyd y gweithle a'r dafarn, nid bywyd y capel a'r eglwys, yr hela a'r dawnsio. Penillion i'w rhannu gyda ffrindiau wrth ymlacio oedd Tribannau. Pan oedd beirdd y dyddiau gynt am ganu'n ffurfiol ac yn urddasol, fe fyddent yn troi at y caeth fesurau – roeddent yn llawn cystal meistri ar yr englyn a'r awdl â gwŷr y North! Ond os am gael sbort, neu dynnu coes, neu ganmol rhyw gymeriad neu ddigwyddiad – triban amdani yn yr ardal hon bob tro.

Mae ambell i driban yn tystio i allu'r bardd i gynganeddu hefyd, fel y dengys yr enghraifft hon, sy'n coffáu damwain a ddigwyddodd yn nhafarn y Llanover Arms ym Mhontypridd:

*Lle 'nafus (perylus) yw Llanofer
I ddyn fo'n yfed llawer.
Fe syrthiodd William Morgan Fawr,
Ŵr salw, lawr i'r seler.*

Dipyn o grefft i hwnnw yn eich barn chi? Ac rydych chi'n iawn: leuan ap Iago, awdur ein hanthem genedlaethol, a'i cyfansoddodd. Roedd e'n un o griw o feirdd fyddai'n cwrdd yn nhafarn y Llanofer yn gyson.

Ond o gofio bod leuan ap Iago'n felinydd, nid yw'n debyg taw efe piau'r triban hwn, sy'n adlewyrchu barn gyffredin iawn am felinwyr - ymhlith ffermwyr, beth bynnag:

*Mae'r felin fâl yn ddyfal
Yn troi yn ai-diofal
A'r hen felinydd yn ei bwyll
Yn waeth ei dwyll na'r cythral.*

Felly – gydag Eisteddfod Ddwl y Dysgwyr ar y gorwel, beth am roi'r gorau i fesur estron y limrig a mabwysiadu'r triban ar gyfer ein barddoniaeth anffurfiol? Onid yw hon yn ffordd ymarferol o gofio a dathlu awdur ein hanthem, trwy lunio penillion ar un o'i hoff fesurau?

Tŷ Bedwellte, Parc Tredegar

Priododd meister haearn lleol, Samuel Homfray â Jane, merch Syr Charles Morgan, Tŷ Tredegar, Casnewydd. Trwy ei briodas llwyddodd Samuel Homfray ym 1800 i gael darn mawr o dir yn Nhredeg, ac ar y tir roedd tŷ bychan. Yn wreiddiol roedd fferm fach o'r enw Coedcae y Cyngordy a oedd yn eiddo i Ludwig Rees ar y tir. Dechreuodd e ailadeiladu'r tŷ, a phan olynodd ei fab Samuel fe ym 1822, dechreuodd e ddatblygiadau uchelgeisiol. Erbyn 1840 roedd y tŷ a pharc fwy neu lai fel y mae heddiw.

Mae Samuel Homfray yn enwog am ei fet o £1000 gyda Richard Crawshay i redeg injan stêm ar reiliau o'i weithiau Penydarren i Abercynon naw milltir i ffwrdd.



Adeiladodd Richard Trevithick yr injan stêm " Penydarren ", y cyntaf i dynnu trên ar reiliau, ac ym 1804 fe wnaeth e redeg o weithiau Penydarren i Abercynon.

Erbyn 1850 daeth y tŷ a'r parc yn eiddo i deulu Morgan eto, a oedd yn ei gadw fel cartref i reolwyr cwmni Tredegar Iron and Coal. Un o'r rheolwyr oedd Mr R. P. Davis y dechreuodd ei wraig y syniad o adeiladu cloc y dref. Adeiladwyd y cloc ym 1858, ond yn anffodus bu hi farw heb weld y cloc wedi'i gwplu.

Ym 1900 rhoddodd y Morgans y tŷ a'r parc i bobl Tredegar.

Mae'r parc yn le bendigedig i gerdded neu ymlacio ynddo, mae na arboretwm, gerddi prydfarth, pyllau, ystafell de, stondin band a'r darn mwyaf o lo yn y byd ynddo.

Torrwyd y darn o lo yn wreiddiol i'w ddangos yn Arddangosfa Fawr 1851 yn Hyde Park, Llundain. Roedd yn



pwysu 20 tunnell ond cwmpodd darn 5 tunnell i ffwrdd wrth geisio ei gludo; felly penderfynwyd peidio â'i gludo oherwydd efallai na fyddai'n goroesi'r daith i Lundain, ac yn lle hynny, cafodd ei arddangos ar dir Tŷ Bedwellte. Cafodd ei dorri gan y glöwr John Jones yn yr 'Yard level' y gellir gweld ei fynedfa ger yr orsaf fysiau o hyd.

Mae'n hefyd floc o lo 2 dunnell a dorrwyd ym 1951 a arddangoswyd yng Ngŵyl Prydain, ac yna daethpwyd ag e'n ôl i Barc Bedwellty. Torrwyd y darn hwn o lo o'r un wythien a'r un o ble cafodd y darn glo 20 tunnell ei dorri gan mlynedd cyn hynny .

Malcolm David

Clwb Darllen Cwmni

Cyfrwl y byddaf yn troi ati yn aml yw 'Natur y Flwyddyn' gan Bethan Wyn Jones. Fe'i cyhoeddwyd yn 2007 ond fe aeth ychydig o flynyddoedd heibio cyn iddi ddod i'm sylw. Roeddwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol, un o eisteddfodau'r De, ac fe'i gwelais ar werth am £5. Rhaid dweud fy mod wedi cael sioc pan welais mai £19.99 oedd y pris gwreiddiol. Fedrwn i ddim ei gadael yno.

Ceir ynddi wledd o wybodaeth am fywyd gwyllt a dathliad o drefn byd natur yn ei holl ogoniant ar hyd y flwyddyn. Mae'n gyfrol i unrhyw un sy'n hoffi mynd am dro yn y wlad, yn enwedig pan mae'r tywydd yn braf. Mae'n ein hatgoffa o hyfrydwch byd natur ac yn tynnu ein sylw at beth sydd i'w weld o'n cwmpas boed hynny yn ein cymunedau neu tu hwnt. Yn ogystal ag enwi'r gwahanol blanhigion, anifeiliaid ac adar mae'r awdur ambell waith yn sôn am y tywydd a'i effaith ar ddyn ac anifail a hefyd rhai hen arferion tymhorol.

Ceir 'nodiadau' cynhwysfawr ar gyfer pob mis ac os yw'r cyfan braidd yn anodd i'w gofio gellid darllen ychydig, ei adael, a dychwelyd ato gan ryfeddu at y lluniau bob tro. Cawn ein tywys ar hyd rhai o lwybrau Ynys Môn ac ym mis Mehefin fe gyrhaeddwn Ynys Lawd lle, yn ogystal â gweld adar y môr a'r blodau gwylltion, cawn ein cyfeirio at olygfa wych mynyddoedd Eryri a Phen Llŷn.

Dyma lyfr clawr caled, gweddol fawr o ran maint ond heb fod yn swmpus. Mae'r testun yn llifo'n esmwyth ac ynghyd â llawer o luniau clir a lliwgar gan y ffotograffydd Jim Saunders cawn ein harwain yn gelfydd o un mis i'r llall.

Teimlwn fod yr enwau Saesneg mewn cromfachau ar ôl yr enwau Cymraeg (a'r enwau Lladin mewn rhai enghreifftiau) nid yn unig yn gaffaeliad ond eu bod hefyd yn ddiddorol. Mae'r detholiadau byr o farddoniaeth gan rai o'n beirdd amlycaf, er enghraifft, T. Llew Jones, Waldo, R. Williams Parry a Cynan yn ychwanegu llawer at y mwynhad, yn cyfoethogi'r profiad ac yn dwyn i gof y darnau y buom yn eu dysgu ar gof flynyddoedd lawer yn ôl. Pwy arall sy'n cofio 'Wyt Ionawr yn oer', 'Fe welais heddiw'r bore', 'Y Cudyll Coch' a'r 'Tylluanod'?

Credaf fod 'Natur y Flwyddyn' yn deitl cwbl addas i'r gyfrol hon.

Marian Fairclogh

Mewn ymateb i gais gan y golygydd ynglŷn â beth a ddarllenwyd neu a ail-ddarllenwyd dros y Nadolig, rwy'n ysgrifennu'r pwtyn byr yma gan obeithio y bydd cymaint wedi ymateb fel na fydd raid ei gynnwys!

Faint o ddarllenwyr Cwmni tybed sy'n gyfarwydd â nofelau Marcel Williams, y cyn-brifathro, a gyhoeddwyd yn ystod '90au'r ganrif ddiwethaf. Dyma farn Lyn Ebenezer am ei nofel gyntaf, **Diawl y Wenallt**, yn disgrifio adwaith grŵp o bobl sy'n gynddeiriog bod Dylan Thomas wedi ennill enwogrwydd trwy wawdio a dychanu ei wlad enedigol :

O'r cychwyn cyntaf fe ddaliodd y nofel hon fy sylw. Yn wir, ni fedraf gofio darllen unrhyw beth tebyg o'r blaen. Mae rhyw ffresni yn perthyn i'r cyfan... nofel fisâr sy'n rhyfeddol o ddarllenadwy, a chaiff y tempo ei gynnal o'r dechrau i'r diwedd.

A dyma fy marn innau hefyd, teimlad na ddarllenais unrhywbeth tebyg erioed yn Gymraeg. Nofel ddifyr, ddychanol sy'n sicr yn troedio tir newydd. Cyhoeddodd hefyd **Sodom a Seion** sy'n dychanu'r sefydliad Cymreig a'r Eglwys yng Nghymru a **Senedd a Satan**, nofel am Gymru'r dyfodol lle digwydd rhywbeth go anghyffredin ar lwyfan y Genedlaethol adeg y Cadeirio.

Byddwn wrth fy modd yn cael ymateb rhywun arall i waith Marcel Williams.

Ann Lewis

Dinca Fala Doctor Elin

Gwyrth yn y Gegin?

Dyma olygfa drist ond cyfarwydd: ffrwchnedd gor-aeddfed, yn codi cywilydd arnom o waelod y bowlen ffrwythau. Wedi eu hanghofio ynghanol holl ddanteithion y Nadolig efallai, fel y triawd hwn. Neb eisiau eu bwyta nawr, a nhw'n rhy "aeddfed" i'w defnyddio mewn smwddi hyd yn oed (wel, maen nhw bron yn bwdr, mewn gwirionedd!).

Beth allwn ni ei wneud gyda nhw, ni bobl sydd am ail-gylchu popeth sy'n dod dan ein dwylo? Wel, eu trawsnewid yn ddanteithyn, wrth gwrs!

Hen rysait yw hwn, heb ei foderneiddio i fesuriadau metrig – ymddiheuriadau am hynny!.

Irwch a leiniwch dun bara 9" x 5" x 2", a gwresogwch y ffwrn i 180⁰ C/ Nwy 4. Yna, rhowch y canlynol mewn powlen gymysgu:

8 owns can hunan-godi

4-6 owns siwgr (gorau po leiaf –mae'r ffrwythau eu hun mor felys)

4 owns ffrwythau sychion (cyrens ac ati)

4 owns o geirios glacé

1 owns o gnau Ffrengig, wedi eu malu

Yna, rhowch y ffrwchnedd (tua 1 pwys ohonynt – wedi eu pilo, bid sicr) mewn powlen arall, gyda

4 owns margarín meddal

2 wy



Bwrwch y cyfan gyda'i gilydd gyda "blender" llaw – neu fforch os ydych am losgi mwy o galorïau – nes iddynt droi'n hylif trwchus, ac arllwys hynny i ganol y defnyddion sychion. Cymysgwch y cyfan gyda'i gilydd yn drwyadl cyn arllwys y cyfan i'r tun, a'i roi yn y ffwrn i bobi am ryw awr a hanner.

Gadewch i'r dorth oeri cyn ei throi allan o'r tun. Yna fe gewch ei thorri'n haenau a thaenu menyn arnynt – neu beidio, fel y mynnoch. A dyna ni – beth sydd yn well na disglaid o de a darn o Fara Brith Banana pan fyddwch wedi dod adre ar ddiwedd y prynhawn ar ôl awr neu ddwy yn yr awyr iach (a/neu oerfel/ gwynt/glaw/eira Y Mis Bach Du).

Sadwrn Siarad
13.02.21

Dwy sesiwn
Bore 9.30-12 a Phrynhawn 1-3.30

Dewch i gwrdd â dysgwyr eraill ac ymarfer eich Cymraeg dros Zoom. Cyfle gwych i adolygu patrymau blaenorol ac ymestyn eich sgiliau iaith mewn awyrgylch anffurfiol. Yn addas ar gyfer pob lefel.

Two sessions
Morning 9.30-12 and Afternoon 1-3.30

Come and meet other learners and practise your Welsh over Zoom.

A great opportunity to review previous patterns and extend your language skills in an informal atmosphere.

Am ddim | FREE



Sadwrn Siarad
06.03.21

Dwy sesiwn
Bore 9.30-12 a Phrynhawn 1-3.30

Dewch i gwrdd â dysgwyr eraill ac ymarfer eich Cymraeg dros Zoom. Cyfle gwych i adolygu patrymau blaenorol ac ymestyn eich sgiliau iaith mewn awyrgylch anffurfiol. Yn addas ar gyfer pob lefel.

Two sessions
Morning 9.30-12 and Afternoon 1-3.30

Come and meet other learners and practise your Welsh over Zoom.

A great opportunity to review previous patterns and extend your language skills in an informal atmosphere.

Am ddim | FREE



Eisiau helpu dysgwyr gyda'u Cymraeg?

Beth am ymuno â 'Siarad' – cynllun gwirfoddol sy'n dod â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg at ei gilydd.

Ewch i dysgucymraeg.cymru i gofrestru



Siwmai Mr Jones,

Diolch i chi am y sgwrs ddydd Mercher – grêt i glywed canmoliaeth am y gwasanaeth da rydych chi'n ei gael gan y merched yn y tîm. Isod, mae'n bach o hanes y gwasanaeth a beth ry'n ni'n ceisio ei ddatblygu.

"Mae'r gwasanaeth Cymraeg wedi ei leoli yn Hwlfordd, Sir Benfro – dyma le mae wedi ei leoli ers sefydlwyd y gwasanaeth nôl yn 2004. Yn ystod yr amser yma, mae'r gwasanaeth wedi ennill nifer o wobrau cenedlaethol am safon y gwasanaeth Cymraeg sydd yn cael ei gynnis. Dros y blynyddoedd mae defnydd y gwasanaeth wedi cynyddu, sydd yn bleser i weld ac yn dangos bod cael gwasanaeth o'r fath yn beth pwysig i'n cwsmeriaid ac i'r iaith yn gyffredinol.

Mae'r gwasanaeth wedi ymrwmo i gefnogi amcan Comisiynydd yr Iaith i gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050 ac yn cefnogi datblygiad safon Cymraeg ein cyd-weithwyr ledled Cymru. Rydym ni ar hyn o bryd ati yn gweithio ar wefan newydd a fydd yn cynnig llawer mwy o wybodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg – hyn i ddod yn hwyrach yn 2021.

Mae'r gwasanaeth ar gael o Ddydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 9yb a 5yh – cysylltwch â ni ar 0333 202 7450 i siarad ag aelod o'r tîm."

Bydd diddordeb gweld yr erthygl gyflawn ar ôl iddi gael ei chwblhau!

Diolch

Daniel Nicholson Rheolwr Cangen Hwlfordd




Dilynwch ni ar Twitter/ Follow us on Twitter

@BarclaysSWales

Gyrrwyd y llythyr hwn ataf wedi i fi gysylltu â'r banc i ddiolch am wasanaeth arbennig o dda. Rydw i wedi defnyddio'r gwasanaeth fwy nag unwaith. Pan yn ffonio, cewch Gymraeg yn ateb yn syth heb orfod cael eich cyfeirio o un man i'r llall. Gol.

Colofn Dafydd Islwyn

Fore dydd Mercher, 25ain o Dachwedd y llynedd darllenais i ysgrif goffa yn y Daily Telegraph i'r cyn-bêldroediwr Gwynfor Jones a fu'n chwarae i Wolves o 1955 i 1962. Bu wedyn yn chwarae i Bristol Rovers am bedair blynedd cyn symud yn ôl i'w gynefin yng Ngwynedd. Arwyddodd i dîm pêl-droed Porthmadog a chydchwarae iddynt â'r adnabyddus Mel Charles o Abertawe. Nos Fercher, 27ain o Ebrill 1955, chwaraeodd ef yn y gêm gyfeillgar ar gae Ffordd Farrar, Bangor, rhwng Bangor City a Select XI Wolves, pencampwyr Lloegr ar y pryd. Chwaraeodd ef i dîm Bangor City gyda rhai o chwaraewyr adnabyddus Blackpool y cyfnod. Fe dynnodd ef sylw un o gyfarwyddwyr Wolves gyda'i chwarae deallus. Ymhen ychydig o wythnosau roedd ar ei ffordd i Molineux. Cyn dechrau'r gêm uchod bu bron i mi gael llofnod Billy Wright, fy arwr. Roedd fy meiro a fy llyfr llofnodion yn ei ddwylo ac yr oedd ar fin arwyddo pan ddaeth rhyw blismon heibio a'n hysio i oddi ar y cae. Mae ei farc ysgafn i'w weld ar y dudalen o hyd!



Cafwyd teyrnged i Gwyn Jones hefyd yn yr Herald Cymraeg (yr atodiad yn Y Daily Post) ar y 9fed o Ragfyr. Yn y deyrnged honno hefyd ceir cyfeiriad at ei onestrwydd. Yn ystod ei amser ym Mryste mi wnaeth Gwyn dynnu sylw at y sgandal betio a siglodd seiliau pêl-droed Lloegr ar y pryd. Yn ôl yr ysgrif yn y Telegraph, yn Ebrill 1963, cyn gêm Bristol Rovers yn erbyn Bradford Park Avenue, fe gynigwyd arian i Gwyn Jones am chwarae yn wael yn y gêm. Gwrthododd ac fe aeth yn syth at ei reolwr i egluro wrtho y cynnig a gafodd.

Ar ôl darllen y teyrngedau, rhaid oedd darllen The Wolves Who's Who 2001 i gael hanes Gwyn Jones gyda'r clwb. Canmolwyd ef am ei chwarae dygn. Dau o gyn-chwaraewyr yn Wolves ar fin chwarae ar gae Ffordd Farrar oedd Dennis Westcott a fu'n chwarae iddynt o 1937 tan 1948 a Johnny Hancocks, un o'r chwaraewyr lleiaf erioed i chwarae iddynt o 1946 hyd 1957. Chwaraeodd Dennis Westcott i Stafford Rangers yn erbyn Bangor. Ar ôl gadael Wolves fe aeth Johnny Hancocks yn chwaraewr/rheolwr i Wellington Town. Ceir llun o'r tîm yng nghyrol Geoff Allman am Wolves.

Pennawd yn y North Wales Chronicle dydd Gwener, 15fed o Fedi 1957, cyn i Wellington Town chwarae yn erbyn Bangor oedd, "Hancocks plays!" Rhaid oedd bod yno. Toriad arall y deuthum o hyd iddo oedd un o'r Rhymney Valley Express, 5ed o Fawrth 1999, colofn "Memories" gan Joyce Jones, "In your Rhymney Valley Express 1939 - 60 Years Ago." Ceir ynddi adroddiad byr yn dweud i Bert Hayes o'r Brithdir arwyddo i Wolves. Chwaraewr a allai chwarae mewn unrhyw safle. Chwaraeodd i Ysgolion Cymru ac am ddau dymor i Dredomen cyn ymuno â Wolves. Bu'n chwarae i dîm lleol y Brithdir, tîm a gynhyrchodd Bert Turner, Charlton Athletic, Billy Bassett, Cardiff City ac eraill. Ceir cyfeiriad at y chwaraewyr hyn ym mhennawd "Sport" yn y gyfrol "Brithdir Yesteryear in an Upper Rhymney Valley Community" gan Royston Smith 2017. Chwaraeodd Bert Hayes a Bill Bassett i dîm y Brithdir a gollodd y rownd derfynol Cwpan Ysbyty Cwm Rhymni tymor 1932-33. Dywedir yn y gyfrol i Bert Hayes chwarae i Wolves a Wrecsam, ond o dudalen y gyfrol "Who's Who Wolves" nid oes cofnod o Bert Hayes ynddi. Nid oes cofnod amdano ychwaith yn y cyfrolau sy'n cofnodi enwau y chwaraewyr a chwaraeodd i glybiau Lloegr a Chymru 1885 i 1939 nac yn un 1946 i 2015. Tybed a amharodd yr Ail Ryfel Byd ar ei yrfa? Mae'n siŵr yr holaf hanesydd Clwb Pêl-Droed Wolves ryw ddydd.

Yn y cyfrolau uchod mae digon o wybodaeth i'w gael am David Thomas Richards (1906-69). Ganwyd Dai Richards yn Abercannaid, Merthyr. Chwaraeodd i River Field a Bedlinog cyn ymuno â Merthyr Town, a oedd yn chwarae yn Nhrydedd Gynghrair Adran Dde Lloegr ar y pryd yn 1926. Ym mis Awst 1927 ymunodd â Wolves a chwaraeodd iddynt tan fis Tachwedd 1935 pan ymunodd â Brentford. Chwaraeodd dros ddau gant o gemau i Wolves a thra yno un gêm ar ddeg i Gymru. Chwaraeodd ei frawd Billy (1905-1956) hefyd i Wolves. Bu yno o fis Gorffennaf 1927 tan fis Mawrth 1929 pan drosglwyddwyd ef i Coventry City. Chwaraeodd 31 gwaith i Wolves. O Coventry City yn 1931 aeth i Fulham. Tra yno chwaraeodd unwaith yn unig i Gymru yn 1933 - y chwaraewr cyntaf o'r clwb i chwarae i Gymru.

Colofn y Dysgwyr

Mae hwn yn amser rhamantus o'r flwyddyn on'd yw e – Dydd Santes Dwynwen ar Ionawr 25 a Dydd Sant Ffolant ar Chwefror 14.

Felly dyma gerdd am gariad – ond dyw hi ddim yn gerdd ramantus iawn! Mae'r bardd, Cris Dafis, wedi ysgrifennu cerdd serch ar gyfer ein hoes fecanyddol ni. Mae'n anodd dechrau perthynas weithiau, fel mae'n anodd dechrau injan car. Pan fydd yr injan yn tanio mae'n deimlad hyfryd – efallai dipyn bach fel syrthio mewn cariad! Ond, hwyr neu hwyrach bydd y car yn rhedeg allan o betrol a'r cariad rhwng y ddau berson hefyd yn dod i ben.

Cariad

Mae datganiad o gariad
yn debyg i gar
a ball gychwyn.
Ond unwaith yr â'r
cog cyntaf
i'w le
gall rhywun yrru am byth.
Nes bo'r petrol
yn rhedeg
mas.



*rhamantus : romantic on'd yw e : isn't it Ffolant : Valentine cerdd serch : a love poem
ein hoes fecanyddol ni : our mechanical age perthynas : a relationship tanio : to fire
teimlad hyfryd : a lovely feeling syrthio mewn cariad : falling in love hwyr neu hwyrach : sooner or later
dod i ben : to come to an end datganiad : a declaration a ball gychwyn : which refuses to start*

Annwyl Olygydd,

Parthed yr erthygl "Lost in Translation" yn Rhifyn Ionawr. Dych chi'n rhestru geiriau gafodd eu bathu fel geiriau newydd Cymraeg ond a fu yn aflwyddiannus. Alla i ddim cytuno â chi am nifer o'r geiriau yma :

telewele = teledu : Roeddwn yn meddwl mai enw ar raglen deledu i blant oedd hwn. Ond mae stori am yr actores a'r gwleidydd Glenda Jackson yn cael ei holi rywdro am yr iaith Gymraeg. Sa i'n cofio pam. Beth bynnag, meddai hi :

I think that a language that calls television Telly welly is somewhat lacking in credibility.

Roedd gyda hi bwynt!

rhingyll = sergeant : mae hwn yn hen air Cymraeg, i'w weld mewn llenyddiaeth ganoloesol dw i'n credu. Mae fferm o'r enw Ffynnon Rhingyll yn agos i Eglwys llan. NID enw gwneud yw hwn! Deallaf hefyd bod Heddlu De Cymru yn defnyddio'r gair heddiw

ystryd = street : sori, ddim yn deall hwn! Mae'n naturiol i ollwng llafariad ar ddechrau gair, steddfod, stafell..... Pam fod 'stryd' yn y rhestr yma?

oriawr = wats : gair a ddefnyddiwn ni yn naturiol yn y Gymru gyfoes

Mae geiriau a geirfa yn destunau cymhleth a llawer i ysgolhaig wedi treulio blynyddoedd yn eu hastudio. Gaf i awgrymu mai peryglus yw llamu i mewn i'r crochan yma heb baratoi!

Y Darllenydd Dirgel

Y Garreg (Hen bethau anghofiedig)



Cae Meinir oedden ni'n galw'r cae o du ucha'r ffordd yn arwain at ein ffermdy ni. Roedd yr enw yn deillio o ddau air, 'maen' a 'hir' oedd wedi dirywio'n Meinir dros y blynyddoedd. Carreg Grwca oedd enw'r fferm ac wedi bod yn ein teulu ni ers cyn cof. Doedd tarddiad enw'r lle ddim yn anodd ei ddirnad chwaith gan fod maen rhyw wyth troedfedd o daldra yn pwyntio allan o'r ddaear yn hollol amlwg os digwydd i chi deithio ar hyd y ffordd gyferbyn â'r fferm.

Fe welwch chi feini mawr yn eitha aml ar lawer o dir uchel Cymru a rheini fel arfer wedi eu gadael filoedd o flynyddoedd yn ôl wedi i rewlif ar ddiwedd Oes yr Iâ feirioli a methu dal y llwyth o gerrig oedd wedi eu cludo ganddo yno ac wedi eu dympio nhw yn ddigon diseremoni. Ac yno y maen nhw o hyd, yn llawer rhy fawr i'w symud. Ond ddim un o rheini ydy ein carreg ni. Mae hon wedi

ei gosod yno rywbryd yn y gorffennol pell gan rywun; fyddai rhewlif byth wedi ei gosod hi mor gelfydd. Rwy'n siŵr ei bod hi wedi bod yn sefyll yn syth ar un adeg, ond fod treigl amser wedi achosi iddi hi ogwyddo yn raddol ac mae hi fel bys hir tenau yn pwyntio i rywle yn yr awyr. Mae rhai yn dweud mai cofeb ar gyfer rhyw bendefig neu'i gilydd ydy hi, ac eraill yn meddwl mai nodi lleoliad i addoli mae'r carreg a bod y lle yn fangre arbennig iawn i'r bobol a'i rhoddodd hi yno. Y cwblwn wn i ydy, mae'n rhaid bod nhw'n rôl giamstars ar symud stwff mawr trwm a rhaid bod rhywbeth arbennig am y lle i gludo'r fath lwmp yno.

Beth sy'n od amdani hefyd ydy bod yna bwl bach o ddŵr wrth ei throed hi, hyd yn oed pam mae'r tywydd wedi bod yn sych fel sach ers wythnosau. Dydy defaid yn y cae ddim yn mynd i yfed yno chwaith, hyd yn oed os ydy eu tafodau nhw'n hongian ar sychder mawr. Mae gan y carreg sgert o laswellt hefyd, sy'n tyfu dipyn yn hirach na gweddill y cae; yn rhannol achos bod y pridd yn gymharol llaith ryw ychydig o fodfeddi ohoni ond hefyd am nad ydy'r defaid fel petai nhw am fentro yn rhy agos i bori. Mi holais i Taid, oedd yn byw efo Nain ar y fferm ar y pryd, am y peth. 'Ofn i'r carreg ddisgyn ar eu pennau nhw,' oedd ei ateb. Wyddwn i ddim os oedd o'n tynnu fy nghoes ai peidio, ond roedd yr ateb yn ddigon i fachgen wyth oed. Holais i ddim mwy. Carreg oedd carreg oedd carreg i Taid, ac yn dipyn bach o niwsans wrth dorri gwair a gorfod mynd o'i chwmpas hi. Roedd Nain, ar y llaw arall, dipyn yn fwy amwys ei hagwedd tuag at y carreg ac yn hapus i arddel ei hagweddau mwy lledrithiol. Os byddwn i a fy chwaer yn blant drwg, heb glirio'n platiau neu fod yn gyndyn i fynd i'r gwely wedi mynd yno i aros ar adegau: 'mi fydda i'n dweud wrth Meinir,' meddai hi a phwyntio at y carreg yn y cae. Roedden ni'n dueddol o ufuddhau wedyn. Dwi'n cofio gorwedd yn fy ngwely yn edrych allan o'r ffenest ar y carreg hynafol oedd fel hen wrach o athrawes yn pwyntio ei bys o'r dyfnderoedd, ac ystyried a oedd Meinir yn gwrandao a'i peidio.

'Nain,' medde fi un diwrnod, 'ydy Meinir yno go iawn, ne jest chi sy'n dweud?'

Tynnodd hi fi a fy chwaer fach yn agosach ati a sibwrdd - 'Os ewch chi allan yn ddistaw bach, pan does yna fawr o wynt, a rhoi eich clust ar y carreg; os ydych chi'n lwcus fe glywch chi.'
'Clywed be, Nain?'

'Mae pobol yn clywed pethau gwahanol a rhai eraill yn clywed dim byd,' meddai hi yn amwys iawn. 'Dim ond bobol sbesial sy'n clywed,' ychwanegodd.

Roeddwn i ar y pryd wedi cyrraedd drwgdybiaeth wyth oed ac yn credu mai stori i'n cael ni i'n gwelyau'n ddidrafferth oedd y cyfan ond roedd Elin fy chwaer yn gegrwth.

Drannoeth, a hithau'n ddiwrnod braf di-wynt, aeth fy chwaer â fi am dro i weld, neu'n hytrach i glywed os mai gwir oedd geiriau Nain. Doedd Elin ddim yn rhy hapus am y syniad ond mynnais i yn fy noethineb ei thywys hi at y garreg i brofi mai cellwair oedd yr hen fenyw. Dw i'n siŵr fod Nain yn edrych trwy'r ffenest arnon ni'n mynd ac yn gwenu. Rhoddodd y ddau ohonon ni ein clustiau yn erbyn y graig. 'Wyt ti'n clywed rhywbeth?,' holodd Elin.

Na,' medde fi.

'Dw i'n clywed,' meddai Elin.

'Clywed be?'

'Wisht, wisht, wisht,' meddai hi wedyn, yn dynwared y sŵn a honnai ei glywed

'Ti'n siŵr?' holais i a rhoi fy nghlust yn ôl ar y garreg, a chlywed dim byd eto, er i mi deimlo rhyw gryndod bychan yn fy mysedd wrth roi fy llaw arni; ond efallai mai dychymyg oedd hynny.

'Hwyrach mod i'n un o'r bobol sbesial sy'n medru clywed Meinir,' meddai Elin yn fuddugoliaethus.

'Hy!' medde fi a cherdded yn ôl i'r tŷ.

Dro arall, dw i'n cofio'n iawn, roedd gen i ryw hen ddafad, ddim un o'r rheini sy'n pori mewn cae ond un oedd ar gefn fy llaw oedd wedi dod yn dipyn o boendod ers dros flwyddyn; ddim bod h'n brifo ond roedd hi'n niwsans noeth pan oeddwn i'n rhoi fy llaw yn fy mhoced.

'Rhwbia hi ar garreg Meinir,' meddai Nain, 'ac mi eith mewn chwinciad i ti.'

Doedd waeth i mi drïo, felly mi wnes, a rhwbio'r ddafad yn y garreg yn ôl cyngor Nain, a wir i chi, erbyn y diwrnod wedyn roedd hi wedi crebachu ryw fymryn. O fewn wythnos roedd hi wedi mynd.

'Ddwedes i, on'd do?' meddai Nain.

Doedd Taid a Nain ddim yn mynd yn ifancach, aeth cadw fferm yn drech na nhw yn y diwedd ac fe symudon nhw i dŷ yn y pentref. Daeth tro ar fyd i ni fel teulu ac fe symudon ni i'r fferm. Roeddwn i ryw ddeuddeg oed ar y pryd, a'r cyfan yn antur fawr. Arhosodd Dad yn ei waith fel athro ond rhoddodd Mam y gorau i'w gwaith yn y llyfrgell i fynd ati i ffermio go iawn. Gallai Dad helpu fin nos a phan oedd h'n wyliau ysgol. Roedd symud o dŷ eithaf moethus gyda'r mod cons i gyd i dŷ fferm lle roedd bywyd yn llawer mwy amrwd yn dipyn o sioc.

Y broblem fwyaf oedd dŵr, neu ddiffyg dŵr ar rai adegau o'r flwyddyn pan oedd y ffynnon, oedd yn bwydo'r tanc yn y tŷ, yn mynd yn hesb. Gan ein bod ni bellteroedd o unrhyw gyflenwad allanol, doedd dim amdani ond dod o hyd i ffynhonnell arall o ddŵr. A dyna a wnaed. Dw i'n cofio'r dewin dŵr yn dod i ddarganfod ble roedd y llecyn gorau i leoli ffynnon newydd. Roeddwn i wedi fy swyno ganddo, a dw i'n cofio ei ddilyn gam wrth gam fel y cerddai'r caeau uwchben y tŷ gyda'r ddwy wifren gopr gam, ar siâp L, un ym mhob llaw yn sticio allan o'i flaen yn aros iddyn nhw groesi i arddangos bod dŵr islaw. Roedd Elin yn dod gyda fi weithiau.

'Ydy pawb yn medru gwneud hyn?' holais i. Dw i'n siŵr mod i'n dipyn o boendod iddo fo.

'Na,' meddai'r dyn a dal ati i gerdded.

'Pam?' holais i wedyn.

'Achos mai dim ond bobol sbesial sy'n gallu gwneud hyn,' atebodd.

'Mi fasech chi'n medru clywed Meinir, felly,' meddai Elin.

Edrychodd y dyn arni'n hurt a pharhau â'i waith. Daeth o hyd i un lleoliad addawol a phlannu ffon yn y ddaear i nodi'r fan, eitha cyfleus i'r tŷ, a daliodd ati i gerdded yn ôl a blaen a ninnau y tu ôl iddo.

Pan aeth yn agos at Garreg Meinir, dechreuodd y ffyn grynu a chwyrlodd y ddwy ffon yn ffyrnig at ei gilydd o'i flaen. Roedd syndod yn ei wyneb. Camodd yn ôl ac agorodd y ffyn eto. Ymlaen eto a digwyddodd yr un peth. Camodd ymlaen unwaith eto tan oedden ni'n union dan fys y garreg. Gollyngodd y dyn ei ffyn yn sydyn ac ysgwyd ei ddwylo'n chwynn fel petaen nhw'n boeth. Agorodd ei ddwlo a'u dangos i ni ac roedd ôl streipen o losg ar gledr y ddwy law yn glir ac roedd y sioc yn amlwg yn ei lygaid. 'Dyna ni,' meddai yn sydyn. Cododd y ddwy wifren yn ofalus rhag ofn eu bod nhw dal yn boeth a cherdded i gyfeiriad y tŷ a gadael Elin a f'n edrych ar ein gilydd.

Yn ei adroddiad i Mam a Dad, cynigiodd ddwy safle i agor ffynnon newydd; un uwchlaw'r tŷ, lle roedd y marc, a'r llall ger y garreg ond roedd yn argymhell yn gryf na ddylid cloddio yno er mai dyna ble roedd yr arwyddion gorau am ddŵr. Ni roddodd reswm am y cyngor. Roedd Dad serch hynny yn bendant mai wrth y garreg y dylid cloddio.

Roedd cloddio yn golygu dod â dril eitha mawr i'r safle. 'Yn chwilio am oel?' meddai un hen ffarmwr yn grafog pan alwodd heibio un diwrnod.

Roedd y peiriant dan ofal dau Sgotyn. Yorkie oedd llysenw un gan ei fod yn dod o'r Orkneys a Tam oedd enw neu llysenw'r llall, wyddwn i ddim yn iawn. Roedd wynebaw ysgythrog gan y ddau a'u moesau a'u hiaith yn ddigon amrwd. Cafodd y ddau groeso cynnes gan dafarnwr y Llwynog, lle roedden nhw'n aros tra parhâi'r gwaith, gan fod y ddau yn cyfrannu'n helaeth i'w goffrau wrth dorri eu syched. Siarsiodd Mam ni i gadw draw oddi wrthyn nhw tra roedden nhw'n gweithio a doedd fawr o groeso ganddyn nhw i blant beth bynnag. Yr argraff ges i oedd eu bod nhw'n greaduriaid blin gythreulig.

Ar y trydydd diwrnod roedden nhw wedi bod wrth eu gwaith yng nghysgod yr hen garreg y digwyddodd o. Roedd y dril, o beth welwn i wedi mynd i lawr yn go ddwfn. Roeddwn i ar fy ffordd i gymryd paned iddyn nhw ganol bore. Roedd sŵn rhythmig y dril yn dyrnu a throi ac roeddwn i'n cerdded dros y borfa tuag atyn nhw pan ddaeth y glec anferth yma gyda mellten yn codi i ben y dril ac yn esgyn i'r awyr. Wedyn daeth chwistrelliad o dân o'r twll roedden nhw wedi ei wneud a thaflwyd un Sgotyn ar ei gefn i'r llawr. Roedd y llall fel petai'n sownd i'r peiriant yn methu gollwng ei afael gyda'r fflamau yn ffrwydro o'r twll o'i flaen. Yn sydyn daeth tawelwch i faes y gyflafan. Gollyngais y cwpanau a rhedeg tuag atyn nhw. Roedd y dril a'r injan a'i gyrrai yn fud. Cwmpodd Yorkie i'r llawr â'i ddillad yn dal i fudlosgi. Roedd ei wyneb a'i frest yn swigod coch i gyd a'i lygaid yn dangos arswyd llwyr. Roedd mam wedi clywed y glec a rhedodd hi o'r tŷ aton ni.

Roedd yr ambiwlans yno mewn hanner awr. Aethpwyd â Yorkie i'r ysbyty yn griddfan. Roedd hi'n syndod i bawb ei fod o'n fyw o gwbl. Roedd Tam yn holliach ond ei fod wedi cael ysgytwad go lew ac yn crynu fel deilen; effaith sioc meddai'r parafeddyg a daeth ambiwlans arall i'w gyrchu yntau. Welon ni'r un o'r ddau eto.

Daeth criw newydd o fois i drwsio'r dril y diwrnod wedyn. Roedd tipyn o waith atgyweirio i'w wneud. Penderfynwyd parhau â'r gwaith er y ddamwain ond ystyrid mai doeth fyddai mynd i chwilio yn y lleoliad arall y tro hwn, a do, fe gawson ni ddŵr yn y diwedd.

Y diwrnod wedyn roeddwn i'n adrodd yr hanes i gyd wrth Nain.

'Eitha gwaith, eitha gwaith,' meddai hi. 'Roedd yr hen bobol yn gwybod, o oedden.'

Soniodd hi ddim byd am Meinir.

Gareth W. Williams

PWYLLGOR a SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

Dosbarthu a Golygydd Lluniau: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney

Hysbysebu: Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith **Gweplyfr/ Facebook:**  Papur Bro Cwmni

Gwefan: Menter Iaith SirCaerffili.cymru/ 

e-bost: [Golygydd@papurcwmni.cymru/](mailto:Golygydd@papurcwmni.cymru) benamarycwmni@yahoo.com

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*